# Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll
## a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llithfaen



Nos Fawrth 11eg o Fehefin, 2019 am 7:00y.h.

Cadeirydd: Y Cyng. Sara Williams

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol** | | Cy ngorwyr - Sara Williams **(SW),** Griffith Jones **(GJ),** John Owen **(JO)**, Gwilym Williams **(GW)**, Ynyr Ellis **(YE)**, Lizbeth James **(LJ)**, Cyng. Aled Jones **(AJ)**, Olwen Roberts **(OR)**, William Jones **(WJ)**. |
| **1.** | | **Hysbysiadau'r Cadeirydd**<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r Cyfarfod |
| **2.** | | **Ymddiheuriadau ac absenoldeb**<br>Sianelen Pleming **(SP)**, Emlyn Hughes **(EH)**, |
| **3.** | | **Datgan Diddordeb**<br>Dim |
| **4.** | | **Diweddariadau asedau**<br>Dim byd ychwanegol i'w rannu. |
| **5.** | | **Cofnodion Cyfarfod Mai, 2019** |
| | ***5.1*** | **Cyflwyno a mabwysiadu**<br>Cynigiodd **YE** gywirdeb y Cofnodion, eiliodd **WJ** a chytunodd pawb. |
| | ***5.2*** | **Materion yn codi** |
| | ***5.2.1*** | **Arwyddion araf - Gôr yrru**<br>Y Clerc wedi cysylltu ag Dylan Jones, cadarnhaodd fod yr arwyddion mewn llaw gan adran gosod y Cyngor, ond dal i ddisgwyl diweddariad pellach ganddo pryd byddent yn cael eu gosod.<br><br>*Y Clerc I gysylltu ymhellach - yr Aelod Lleol hefyd i holi.* |

Llofnodwyd gan ........................................................................................ Dyddiad ..............................................

*Clerc Cygor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*

*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*

| | | |
|---|---|---|
| **6.** | | **Ceisiadau Cynllunio**<br>Roedd cais wedi ei dderbyn ar y rhestr wythnosol gan y Cyngor, nid oedd yr Aelod Lleol na'r Clerc wedi derbyn dim ychwanegol yn uniongyrchol.<br>Roedd y cais i ymwneud a rhyddhau amod 23 a 26 ym Mhlas Pistyll<br>Cynigiodd **OR** ac eiliodd **LJ** fod y Cyngor yn gwrthwynebu a chytunodd pawb.<br><br>*Y Clerc i ddiweddaru'r Cyngor.*<br>*Yr Aelod Lleol i chwilio am wybodaeth bellach gan yr Adran Cynllunio.* |
| **7.** | | **Wal y Ffordd i Nant Gwrtheyrn**<br>Y Clerc wedi cysylltu ag Un Llais Cymru oedd wedi cadarnhau yn gyfreithiol nad oedd y Cyngor yn cael gwneud gwariant ar wal breifat. Bydd y mater nawr yn nwylo'r perchennog, AHNE a'r Nant. |
| **8.** | | **Baw Ci yn y Pentref**<br>Y gystadleuaeth gan **SP** yn fyw ar enillydd yn cael ei ddewis mis nesaf.<br>Baw ci yn parhau i fod yn broblem yn y pentref.<br>Y Cyngor wedi ceisio codi ymwybyddiaeth i'r ymchwil gyda Llythyr Llithfaen. |
| **9.** | | **Materion Lleol**<br>Y Clerc i adrodd am y problemau canlynol i'r Cyngor Sir:<br>• Twll yn y lon rhwng mynedfa'r Ganolfan a giât Llithfaen bach<br>• Difrod i'r 'Speed Hump' wrth Minafon a Nant Bach<br>• Twmpath gyferbyn y Ganolfan ar y B4417<br>• Cyflwr tyfiant y chwyn yn y pentref |
| **10.** | | **Gohebiaeth a Gwybodaeth** |
| | ***10.1*** | **Corff Gwarchod Iechyd Gogledd Cymru – Gwersi A Ddysgwyd O Adolygiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**<br>Wedi ei rhannu o flaen llaw – nid oedd sylwadau pellach |
| | ***10.2*** | **Modylau Dysgu Ar-lein Sylfaenol Un Llais Cymru**<br>Wedi ei rhannu o flaen llaw – nid oedd sylwadau pellach |
| | ***10.3*** | **Gwahoddiad I Sgwrs Genedlaethol gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru - Mawrth 18 Mehefin, 14:30-17:30 – Neuadd Penrhyn, Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor**<br>Wedi ei rhannu o flaen llaw – nid oedd sylwadau pellach |
| | ***10.4*** | **Weminar Swyddfa Archwilio Cymru 18:00 – 19:15 Dydd Mawrth 2 Gorffennaf 2019**<br>Wedi ei rhannu o flaen llaw – nid oedd sylwadau pellach |
| | ***10.5*** | **Shawn Yates Airband Community Internet Ltd. – Rhyngrhwyd Cymunedol**<br>Wedi ei rhannu o flaen llaw – nid oedd sylwadau pellach |

Llofnodwyd gan ............................................................................................. Dyddiad ..............................................

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*

| | | |
|---|---|---|
| **11.** | | **Cyllid** |
| | ***11.1*** | **Cyfrifon**<br>Adolygwyd a chymeradwywyd y cysoniad banc, gyfriflen proffid a cholled a rhagamcanion 2019/20. Cynigiodd GW eu cywirdeb ac eiliodd YE a chytunodd pawb. |
| | ***11.2*** | **Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf**<br><br>**Cyfrif Cyfredol –**<br>Taliadau - £240.00 – Dannys Garden Services- torri gwair Fynwent Pistyll<br>£441.30 – BHIB Insurance<br>£160.00 - Cyflog Clerc<br>£ 45.35 - Treuliau Clerc<br>Balans- £4,446.08<br><br>**Cyfrif Cadw –**<br>Balans- £3,080.93 |
| | ***11.3*** | **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod**<br><br>Cyflog Clerc- £160.00<br>Treuliau Clerc - £13.00 |
| **12.** | | **Dyddiad y Cyfarfod nesaf**<br><br>9fed o Orffenaf, 2019 |

Llofnodwyd gan ........................................................................................ Dyddiad ..............................................